# Cyngor Cymuned Glantwymyn

**Nôs Iau, 28 Medi 2017.**

**Presennol:-** Cynghorwyr:- Dafydd E Evans, Paul Hughes, Siôn Ifans, D Gwyn Jones, Gareth W Jones, Iwan Pughe Jones, Deryck Lewis, Gwen Lloyd, S Gareth Owen, William N Owen, Aeron Pughe, Gwenfair E Rhys-Davies, Geraint Wigley, a'r Cynghorydd Sir, Elwyn Vaughan. Hefyd y Clerc, Mr Rab Jones.

**Ymddiheuriadau:-** Cynghorwyr:- Aled O Griffiths, Huw M Williams.

Estynodd y Cadeirydd cydymdeimlad i deulu Maesycriau, Llanwrin, yn dilyn y damwain i Mr Ifan Williams.

**17.51. Cofnodion cyfarfod 3 Awst 2017.**
Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd dileu y geiriau "Derbyniwyd y cyfrifon." o dan eitem 17.47.1. Fel arall, derbyniwyd cofnodion y cyfarfod uchod a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**17.52. Materion yn codi o'r cofnodion.**
16.72.1. Prosiect Adnewyddu Pibellau Dwr. Darllenodd y Clerc e-bost newydd gan Mr Steve Coventry, cwmni Amey, yn rhoi diweddariad ar y prosiect.
16.74.5. Problemau gyda gorsaf pwmpio Cwmlline. Darllenodd y Clerc e-bost newydd gan Ms Kim Kehoe, Dwr Cymru, yn rhoi diweddariad ar y sefyllfa gyda'r gorsaf pwmpio yng Nghwmlline.
17.49.1. Problemau gyda llwybr yr Eglwys yn Darowen. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd mi fydd y Cadeirydd yn cwrdd gyda Cyng Iwan Pughe Jones a Cyng Geraint Wigley am 5:00yp ar 2 Hydref 2017 ar y safle i trafod y sefyllfa.
17.50.2. Goleuadau traffig ar y bont dros y rheilffordd yn Comins Coch. Darllenodd y Clerk e-bost ynglyn y sefyllfa. Nodwyd bod y goleuadau wedi cael ei symud unwaith ond ers hynny y meant wedi dychwelyd yn ol i'r safle gwreiddiol.

**17.53. Cynllunio.**
53.1. VAR/2017/0021. Cais i newid amodau cais cynllunio M12131 ym Maes Carafanau Brynuchel Isaf, Cwmlline, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwrthwynebu newid amodau y cais cynllunio gwreiddiol i osgoi gormod o pwysau ar cyflysterau lleol yn ardal Cwmlline.
53.2. P/2017/0792. Cais i newid defnydd y tir yn cynnwys codi ty ar safle Tir Heddwch, Cemaes, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd gwrthwynebu'r cais yma yn gryf am nifer of rhesymau.
53.3. P/2017/1023. Cais i codi estyniad i adeilad yr ysgol a gweithgareddau eraill ar safle Ysgol Glantwymyn, Cemmaes Road, Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth cytunwyd cefnogi y cais.

**17.54. Materion ariannol ac eitemau i'w talu.**
54.1. Costau llogi yng Nghanolfan Glantwymyn. Cytunwyd taliad o £110-00.
54.2. Cais am arian gan RABI. Cytunwyd gohirio penderfyniad ar y cais yma.
54.3. Cais am arian gan Cwrdd Cystadleuol Aberhosan. Cytunwyd gohirio penderfyniad ar y cais.

**17.55. Adroddiadau'r Cynrychiolwyr.**
55.1. Cyngor Sir Powys. Eglurodd Cyng Elwyn Vaughan fod y Cyngor Sir wedi gwerthu hen adeilad y toiledau yng Nghemaes, ond nid i'r Gwesty Penrhos. Eglurodd hefyd fod gan y Cyngor Sir fod yna gor-wariant sylweddol o £4.3m gan y Cyngor Sir, bron i gyd oherwydd costau edrych ar ol pobl mewn oed. Mae'r sefyllfa yn mynd i creu anhawsterau ariannol sylweddol i'r Cyngor. Gorffennodd gyda diweddariad ar nifer o eitemau lleol.
55.2. Canolfan Glantwymyn. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod y Ganolfan yn gobeithio archebu cadeiriau newydd i'r neuadd ac yn debyg o gwneud cais am arian i'r Cronfa Melinau Gwynt.

55.3. Fforwm Cleifion. Ymddiheurodd Cyng Gwenfair Rhys-Davies fod yna dim adroddiad ar y Fforwm Cleifion. Eglurodd Cyng Gareth Wyn Jones ei fod ddim yn derbyn unrhyw gohebiaeth ynglyn y Fforwm Cleifion. Cytunwyd mi fydd y Clerc yn gwneud y trefniadau addas I gwneud yn siwr fod Gareth yn cael y gohebiath yn y dyfodol.

**17.56. Gohebiaeth.**
56.1. E-bost gan Cyng Rosemarie Harris, Cyngor Sir Powys, ynglyn a Cynllun Llesiant Powys.
56.2. E-bost gan Ms Sophie Rees, Cyngor Sir Powys, ynglyn a Cynllun Llesiant Powys.
56.3. E-bost gan Mr Paul Egan, Un Llais Cymru, ynglyn a Diwygio Deddfwriaeth Diogelu Data.
56.4. E-bost gan Mr Steve Fuller, Cyngor Sir Powys, ynglyn a cau'r ffordd C2082 yng Nghemaes yn ystod Mis Hydref.
56.5. E-bost gan Suzy Davies, AC, ynglyn y gwefan a cael cofnodion yn Saesneg. Cytunwyd rhoi diweddariad i Suzy gan egluro mi fydd cofnodion ar gael yn Saesneg os bydd angen.
56.6. E-bost gan Cyngor Sir Powys ynglyn Cynllun Datblygu Lleol Powys.
56.7. E-bost gan Cyng Andrew Jones, Cadeirydd Cyngor Cymuned Gwernyfed, ynglyn Cynllun Datblygu Lleol Powys.
56.8. E-bost gan Mr Lyn Cadwallader, Un Llais Cymru, ynglyn a Chynigion Cynhadledd Un Llais Cymru 2017.
56.9. E-bost gan Rhwydwaith Gwledig Cymru ynglyn cynllun newydd Glastir Uwch.
56.10. E-bost gan Ms Mandy Evans, Cwmni Alun Griffiths, ynlyn a Chynigion Gorchmynion Drafft ar gyfer Cynllun Phont ar Ddyfi Newydd ar y A487 ger Machynlleth. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd ysgrifennu i gwrthwynebu'r cynllun am nifer o rhesymau.
56.11. E-bost gan Un Llais Cymru ynglyn a cyfleoedd hyfforddiant.
56.12. E-bost gan Cyngor Sir Powys gyda Cylchlythyr Archifau Powys Hydref 2017.
56.13. E-bost gan Mr Russell George AC gyda newyddion Mis Gorffenaf 2017.

**17.57. Unrhyw fater arall.**
57.1. Problemau gyda'r llinellau gwyn newydd heibio troiad Aberangell. Eglurodd Cyng Gwenfair Rhy-Davies fod yna pryderon am y llinellau gwyn newydd ar y ffordd fawr heibio troiad Aberangell. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw yr Adran Priffyrdd.
57.2. Problemau gyda tyfiant ar hyd ochr y rheilffordd cyferbyn a'r Swyddfa Post yn Cemmaes Road. Ychwanegodd Cyng William Owen fod angen sylw i'r coed ar hyd ochr y rheilffordd ger tai Glantwymyn. Cytunwyd ysgrifennu unwaith eto at cwmni Network Rail am y sefyllfa.
57.3. Problemau gyda'r bont islaw Maes Carafanau Brynuchel. Eglurodd Cyng Paul Hughes fod yna problem gyda cerbydau trwm yn ddefnyddio'r bont yma. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw swyddogion y Cyngor Sir.
57.4. Problemau gyda diffyg llefydd parcio ym mhentref Cemaes. Eglurodd Cyng Sion Ifans fod yna problemau gyda diffyg parcio ym mhentref Cemaes, yn enwedig ger y tai Cyngor. Ychwanegodd Cyng Dafydd Evans fod y problemau yn ymestyn i cerbydau yn ceisio troi i lawr i'r ffordd gefn. Cytunwyd gohirio unrhyw trafodaeth ymhellach ar y sefyllfa am y tro.
57.5. Problemau gyda'r troiad islaw Bronffynnon, Darowen. Eglurodd Cyng Iwan Pughe Jones fod yna problemau gyda'r troiad cudd islaw Brynffynnon. Cytunwyd gofyn am arwyddion addas.
57.6. Problem gyda coed isel ar ffordd Llanwrin. Eglurodd y Clerc fod Cyng William N Owen wedi gofyn iddo codi sylw problemau gyda canghenau coed yn tyfi yn isel dros ffordd Llanwrin. Cytunwyd dod a'r sefyllfa at sylw y Cyngor Sir.
57.7. Eglurodd y Clerc ei fod mewn cysylltiad gyda Mr Derek Evans o'r "Wales Audit Office" ynglyn a phroblemau gyda sefyllfa ariannol y Cyngor. Ymddiheurodd y Clerc am y sefyllfa ac eglurodd mi fydd rhaid iddo ef a'r Cadeirydd cwrdd gyda Mr Evans ar 13 Hydref 2017 i thrafod y sefyllfa. Gadawodd y Clerc y cyfarfod i'r Cynghorwyr trafod y sefyllfa ymhellach.

**Cynhelir y cyfarfod nesaf ar Nos Iau, 26 Hydref 2017.**
**Cynhelir y cyfarfod canlynol ar Nos Iau, 30 Tachwedd 2017.**